# Adroddiad Arolygu ar

**Gydweithfa Cartrefi Cymru Caerdydd a'r Fro**

**Cartrefi Cymru**
**Uned 5-6 Coopers Yard**
**Curran Road**
**Caerdydd**
**CF10 5NB**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

02/12/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chydweithfa Cartrefi Cymru Caerdydd a'r Fro

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr cofrestredig | Cartrefi Cymru Co-operative Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad cyntaf ers i'r cartref ailgofrestru dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb


Mae pobl yn cael gwasanaeth o ansawdd oddi wrth staff sydd yn deall eu hanghenion, ac yn eu cynorthwyo i wireddu eu canlyniadau llesiant. Mae lefelau staffio yn cael eu penderfynu yn ôl anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, sy'n sicrhau bod pobl yn byw eu bywyd i'r eithaf. Mae gan y staff gofal a defnyddwyr y gwasanaeth berthynas gadarnhaol ac mae gofal yn cael ei ddarparu gydag amynedd, caredigrwydd a thrugaredd. Mae'r dogfennau gofal yn fanwl, yn gadarn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae tystiolaeth bod staff yn cysylltu â gweithwyr proffesiynol ac yn ceisio cyngor a chymorth pan fydd angen. Mae'r adborth oddi wrth weithiwr proffesiynol ymweliadol yn gadarnhaol. Mae staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel, wedi eu hyfforddi yn dda ac yn cael eu cynorthwyo. Mae'r staff yn hapus yn eu gwaith ac yn siarad yn dda o blaid y rheolwyr.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn llyfn ac mae gan yr unigolyn cyfrifol oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth. Mae'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn deall eu rolau ac yn sicrhau bod atgyfeiriadau diogelu yn cael eu gwneud i'r awdurdod lleol yn ôl yr angen. Mae prosesau sicrwydd ansawdd ar waith ar gyfer monitro darpariaeth y gofal a nodi unrhyw welliannau sydd eu hangen.

## Llesiant

Gall pobl fod yn hyderus bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Mae'r dogfennau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu datblygu gyda phobl ac/neu eu cynrychiolwyr. Mae’r cynlluniau gofal yn amlinellu sut mae pobl am dderbyn eu gofal a sut y maent yn hoffi treulio’u hamser. Mae'r dogfennau hyn yn cael eu hadolygu fel sy’n ofynnol gan y rheoliadau gyda mewnbwn oddi wrth yr unigolyn ac/neu ei gynrychiolwr. Mae pobl yn mynychu addysg a gweithgareddau cymdeithasol o'u dewis ac yn cael cymorth oddi wrth staff i sicrhau bod eu canlyniadau llesiant yn cael eu cyflawni. Mae’r bobl yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthnasau gyda ffrindiau a theulu wrth fyw yn annibynnol yn y gymuned. Mae Cartrefi Cymru yn cymryd cwynion o ddifrif ac mae ganddynt bolisi cwynion cadarn ar waith. Bydd pob cwyn yn mynd at uwch reolwr ac yna’n cael ei hateb yn briodol ac yn cael ei storio’n ganolog. Ymgynghorir â’r bobl fel rhan o ymweliad yr unigolyn cyfrifol a'r broses monitro sicrwydd ansawdd er mwyn rhoi adborth ar y gofal y maent yn ei gael ac i nodi lle y gellir gwneud gwelliannau.

Caiff pobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed. Mae gan Gartrefi Cymru bolisi diogelu ar waith, ac mae'r holl staff yn cael hyfforddiant mewn diogelu pobl rhag y risg o gamdriniaeth, a chynigir hyfforddiant gloywi bob blwyddyn. Mae rheolwyr yn deall eu cyfrifoldebau ynghylch diogelu pobl agored i niwed, ac maent yn gwneud atgyfeiriadau i'r awdurdod lleol lle yn y bo’n briodol. Mae'r atgyfeiriadau hyn yn cael eu storio'n ganolog a chael eu harchwilio fel rhan o'r prosesau sicrhau ansawdd. Mae hyn yn arfer da, gan ei fod yn medru nodi patrymau camdriniaeth a datblygu arferion da yn sgil y gwersi a ddysgwyd’’. Mae’r broses recriwtio staff yn ddiogel ac yn gadarn gan fod tystysgrifau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a geirdaon yn cael eu ceisio cyn bod cyflogaeth yn cael ei chynnig. Mae'r gwiriadau hyn yn bwysig am eu bod yn dangos addasrwydd unigolyn i weithio gyda phobl agored i niwed.

Mae’r bobl yn cael eu trin gydag urddas a pharch. Mae gan y staff gofal berthynas gadarnhaol gyda’r bobl maent yn gofalu amdanynt ac yn deall eu hanghenion. Gall staff ragweld anghenion defnyddwyr y gwasanaeth na allant fynegi eu hanghenion eu hunain ar lafar. Mae’r staff wedi datblygu ffyrdd o gysylltu â phobl na allant gyfathrebu ar lafar, ac yn gwneud hynny gyda gofal a charedigrwydd. Cynorthwyir pobl i fod yn annibynnol ac i gael  y lefel o gymorth sydd ei angen yn unig. Anogir pobl i wneud pethau drostynt eu hunain lle bynnag yn y bo’n bosibl. Mae’r bobl yn edrych yn lân, yn drwsiadus ac yn hapus. Caiff gofal personol ei ddarparu mewn ffordd arwahanol ac mae’n sicrhau bod pobl yn cynnal eu hurddas ar bob adeg.

## Gofal a Datblygiad

Mae’r bobl yn cael y gofal cywir ar yr amser cywir. Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth ragorol am anghenion y bobl maent yn gofalu amdanynt, ac maent yn gallu rhagweld anghenion pobl na allant gyfleu hyn eu hunain. Mae rotâu staff yn cael eu llunio o gwmpas y bobl maent yn eu cynorthwyo i sicrhau bod staff digonol ar gael i gwrdd ag anghenion ar bob adeg. Mae’r staff gofal yn darparu gofal gyda charedigrwydd, parch ac amynedd ac maent wedi datblygu ffyrdd o gyfathrebu â phobl na allant gyfathrebu ar lafar. Gwelsom bobl yn rhyngweithio gyda phobl gan ddefnyddio cyffyrddiad, sŵn ac ystumiau ac roeddent yn gallu gweld pobl yn ymateb yn gadarnhaol i ymgysylltiad y staff.
Mae'r dogfennau gofal yn drwyadl, yn gadarn, ac yn amlinellu anghenion pobl yn glir a sut y dylid eu bodloni. Adolygir y dogfennau hyn yn rheolaidd ac mae tystiolaeth bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud i weithwyr proffesiynol iechyd yn ôl yr angen. Mae dogfennau ychwanegol ar waith i bobl ag anghenion iechyd cymhleth, sy’n eithriadol o fanwl, ac yn cynnwys cyfarwyddiadau cam wrth gam. Mae hyn yn arfer da iawn oherwydd byddai’n galluogi aelod newydd o staff i ddeall sut i fodloni anghenion cymhleth a lleihau’r risg o wneud camgymeriadau.

Gall pobl fod yn sicr bod ganddynt ddewis a rheolaeth cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl. Mae dogfennau gofal yn cael eu datblygu gyda phobl a/neu eu cynrychiolwyr ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r unigolyn.  Caiff y pethau maent yn eu hoffi ac nad ydynt yn eu hoffi eu cofnodi ynghyd â gwybodaeth am y ffordd yr hoffai’r bobl dderbyn eu gofal. Mae gan y bobl eu cynlluniau gweithgareddau personol eu hunain ar waith ac maent yn gwneud y pethau sydd yn bwysig iddynt. Gwnaethom arsylwi ar aelod o staff yn cynorthwyo unigolyn i baratoi ar gyfer trip siopa, a nodwyd bod anogaeth yn cael ei rhoi i alluogi'r unigolyn i wneud y dasg mor annibynnol â phosib. Gwelsom fod gan yr unigolyn a'r aelod o staff  berthynas gadarnhaol iawn a’u bod yn chwerthin ac yn tynnu coes gyda'i gilydd wrth gofio am dripiau a gwyliau yn y gorffennol. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn hapus gyda'r gwasanaeth mae’n ei derbyn a'i fod yn hyderus ei fod yn gallu mynd at aelod o staff yn hawdd pe bai ganddynt unrhyw broblemau. Siaradodd gweithiwr proffesiynol ymweliadol yn gadarnhaol am y gwasanaeth mae ei gleient yn ei gael, a dywedodd wrthym sut mae staff gofal yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol i nodi anghenion pobl a’r ffyrdd y gallant ddiwallu’r anghenion orau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae pobl yn elwa ar yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth sydd ar waith. Mae gan Gartrefi Cymru reolwr sy'n goruchwylio'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd ac unigolyn cyfrifol sy'n atebol am y gwasanaeth yn gyffredinol. Mae'r rheolwr wedi ei gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, rheolydd y gweithlu. Siaradom â'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr fel rhan o'r arolygiad a daethom i'r casgliad eu bod ill dau yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gofalu am bobl agored i niwed. Gwneir atgyfeiriadau diogelu yn ôl yr angen ac yna cânt eu harchwilio gan uwch reolwyr sy'n storio'n ganolog gyda'r canlyniadau.
Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer rhedeg y gwasanaeth, ond gwnaethom awgrymu mân addasiadau i'r polisi diogelu i'w wneud yn hollol gadarn. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cwblhau ymweliadau monitro ac yn llunio adroddiadau ar ei ganfyddiadau. Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod pobl yn cael gwasanaeth o ansawdd. Mae rhywfaint o adborth oddi wrth bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ond rydym wedi argymell y dylid ymestyn hyn, fel bod yr holl bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a/neu eu cynrychiolwyr yn cael cyfle i ymgysylltu yn y broses hon.

Gall y bobl fod yn sicr eu bod yn cael gofal oddi wrth staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n dda a gallant deimlo'u bod yn cael cefnogaeth. Mae hyfforddiant yr holl staff yn gyfredol, ac maent yn mynychu cyrsiau sy'n berthnasol i anghenion y bobl maent yn gofalu amdanynt. Dywedodd y staff a gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod ganddynt yr holl gyfarpar i ymgymryd â'u rolau. Drwy gydol y pandemig ni roddwyd goruchwyliaeth i staff mor rheolaidd â'r angen, ond mae'r rheolwyr wedi sicrhau bod yr holl staff yn cael eu goruchwylio ac yn y dyfodol byddant yn cael sesiynau bob tri mis. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo'u bod yn *"cael cefnogaeth dda bob amser"* a gwnaethant ddisgrifio'r rheolwr fel unigolyn *"hyfryd a hawdd mynd ato".*
Gwnaethom edrych ar ddetholiad o ffeiliau personol staff a gweld bod dulliau recriwtio yn ddiogel ac yn gadarn gan fod gwiriadau cyn cyflogaeth gan gynnwys geirdaon a thystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu ceisio cyn bod cyflogaeth yn cael ei chynnig. Gwelsom fod y ffeiliau yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, ond treuliwyd cryn amser i ddod o hyd i rai dogfennau, felly rydym wedi argymell ail strwythuro'r ffeiliau i sicrhau y gellir dod o hyd i wybodaeth yn haws. Gwnaethom edrych ar rotâu staff a gweld eu bod yn gyson. Mae amser teithio yn cael ei neilltuo i staff sy'n darparu gofal cartref yng nghartrefi unigolion.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| --- | --- | --- |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 18/01/2022